



Lechyd, Lles a Chydlyniant Cymunedol

Papur Testun Rhif 9 – Crynodeb

Cyflwyniad

Cydlyniant cymunedol yw gallu cymdeithas i sicrhau lles ei holl aelodau, gan leihau'r gwahaniaethau mewn cyfoeth ac incwm a hysbysu pobl yn gyffredinol eu bod yn aelodau o'r un gymuned a bod gan bawb rôl i'w chwarae mewn cymdeithas.

O ran y Cynllun Datblygu Lleol mae cydlyniant cymdeithasol yn fater amlweddol, e.e. mae polisiâu'n dylanwadu ar gyflogaeth, tai, incwm, iechyd, addysg a diwylliant o ran penderfyniadau cynllunio a defnyddio tir.

Cyd-destun

Mae'r Strategaeth Gymunedol wedi'i chynhyrchu gan Fwrdd Gwasanaeth Lleol Sir y Fflint i edrych ar y prif faterion a diffinio gweledigaeth ar gyfer y sir gan gynnwys cyfeiriad statudol a roddir gan y llywodraeth.

Mae'r weledigaeth yn nodi'r blaenoriaethau canlynol:

- Ffyniant economaidd.
- Gwella iechyd drwy bopeth a wnawn.
- Dysgu a sgiliau am oes.
- Byw'n gynaliadwy.
- Cymunedau diogel a chynorthwyol

Gellir defnyddio hyn i roi darlun o elfennau penodol lles a chydlyniant cymunedol y dylid eu hystyried yn y CDLI sydd ar y gweill. Hefyd fel rhan o ddatblygiad y CDLI bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o Effaith ar lechyd yn cael eu cynnal ochr yn ochr â'r cynllun. Bydd y rhain yn eistedd ochr yn ochr â'r Arfarniad

Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol
Strategaethol i sicrhau fod modd asesu effeithiau amgylcheddol ac economaidd fel ei gilydd.

Rôl y Cynllun

Bydd rôl y CDLI neu'r amcanion allweddol yn cynnwys:

- Cymdeithasol a lles – galluogi pob preswlydd lleol i gael mynediad at dai, gwasanaethau, siopau a chyfleusterau hamdden a chwaraeon o safon.
- Rhoi sylw i anghenion poblogaeth sy'n heneiddio
- Iechyd – hyrwyddo a hwyluso datblygiad amgylcheddau diogel ac iach.
- Hunaniaeth gymunedol – gwarchod bywyd cymunedol drwy gyfyngu ar ddatblygiadau i lefel y gellir ei gynnal yn rhesymol a'i gymhathu mewn cymunedau presennol.
- Diwylliant ac iaith – hyrwyddo a chefnogi diwylliant lleol amrywiol gan gynnwys diogelu a datblygu'r Gymraeg.
- Diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr o ran lle i fyw.
- Darparu cyfleoedd cyflogaeth i bob cymuned.
- Rhaid i'r cynllun hefyd eistedd yn gyfforddus o fewn cyd-destun polisi ehangach o ran cynlluniau a strategaethau eraill.

Cynlluniau a Strategaethau Allweddol

- Strategaeth Gymunedol Sir y Fflint 2009-2019 (2009)
- Strategaeth Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (2010): Ar y cyd â Wreccsam

- Strategaeth Tai Lleol Sir y Fflint 2012 – 2017 a
- Strategaeth Ddigartrefedd 2009- 2015
- Strategaeth Ffyniant Economaidd 2012
- Iechyd Da, Gofal Da yn Sir y Fflint 2011- 2014
Caiff Cynllun Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint 2011-2014 ei gynnwys yn y Cynllun Integredig Sengl sydd heb ei gyhoeddi eto.
- Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 5 Tach 2012
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 Chwaraeon Hamdden a Mannau Agored

Materion yr eir i'r afael â nhw yn y Cynllun

Mynediad – Dylai awdurdodau cynllunio lleol roi ystyriaeth i hygyrchedd i bawb, gan gynnwys anghenion pobl â nam ar y synhwyr, pobl ag anawsterau dysgu ac anawsterau symud, megis defnyddwyr cadeiriau olwyn, pobl hŷn a phobl â phlant ifanc, yn gynnwys yn y broses ddylunio.

Trosedd a Diogelwch Cymunedol - Y nod yw cynhyrchu amgylcheddau diogel drwy waith dylunio da.

Cyflogaeth - Dylai'r system gynllunio gefnogi twf economaidd a chyflogaeth ochr yn ochr ag ystyriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol yng nghyd-destun datblygiad cynaliadwy. Mae busnesau newydd yn hanfodol mewn ardaloedd gwledig i gynnal a gwella cymunedau gwledig.

Tai - sicrhau cyflenwad digonol o dir ar gyfer tai i bob grŵp o bobl yn y gymdeithas, e.e. tai fforddiadwy, cartrefi'r farchnad agored ar gyfer ystod o anghenion a safleoedd sipsiwn teithiol.

Y Gymraeg – Dylai pob awdurdod cynllunio lleol ystyried p'un a oes ganddynt gymunedau lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o'r adeiladwaith cymdeithasol. Os felly bydd angen dangos sut mae anghenion a buddion yr iaith Gymraeg wedi'u cymryd i ystyriaeth wrth baratoi'r cynllun.

Iechyd - Mae iechyd yn thema sy'n cael ei chynnwys ym mhob rhan o'r cynllun o ran darparu cyfleusterau cymunedol, tai cynaliadwy, a mannau hamdden ac agored. Cynhelir Asesiad o Effaith y

cynllun ar lechyd wrth ei ddatblygu.

Mae mynediad at fannau hamdden ac agored naturiol yn rhan bwysig o hybu iechyd i ganiatáu ac i annog gweithgarwch corfforol.

Mae PCC yn datgan mai un o brif amcanion cynllunio Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo patrwm datblygu mwy cynaliadwy, er mwyn creu a chynnal rhwydweithiau o gyfleusterau a mannau agored.

Polisiâu / Cynigion Defnydd Tir Posibl

Er nad oes un polisi penodol yn ymwneud â lles cymunedol, bydd nifer o bolisiâu yn cael dylanwad ar faterion sy'n effeithio ar les a chydlyniant cymdeithasol.

- Neilltuo tir ar gyfer Sipsiwn Teithiol.
- Caiff safleoedd eu dyrannu ar gyfer amryw o dai mewn lleoliadau cynaliadwy.
- Bydd y cynllun yn nodi ble ac ar ba lefel y mae angen tai fforddiadwy. Bydd hefyd yn nodi mathau eraill o anghenion tai e.e. lletyau gwarchod.
- Dyrannu tir ar gyfer twf economaidd ar safleoedd cynaliadwy a chreu polisiâu i ganiatáu rhywfaint o ddatblygiad economaidd mewn ardaloedd gwledig.
- Polisiâu i sicrhau fod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio'n hygyrch i bawb, creu cymunedau diogel a thai hyblyg am oes. Dylai polisiâu sicrhau dyluniadau o safon uchel sy'n creu mannau deniadol i fyw ynddynt. Dylai datblygiadau newydd integreiddio mewn aneddiadau presennol a chadw cymeriad, diwylliant ac ymdeimlad o le sy'n gwneud Sir y Fflint yn arbennig.
- Polisiâu i neilltuo a diogelu mannau agored a mannau gwyrdd.